| Cardiff Council<br>Replacement Local Development Plan Examination<br>Hearing Session 6 – 09.30-13.00, 16 June 2026<br><br>Virtual<br><br>Employment | Cyngor Caerdydd<br>Cynllun Datblygu Lleol Newydd Archwiliad<br>Sesiwn Gwrandawiad 6 – 09.30-13.00, 16 Mehefin 2026<br><br>Rhithwir<br><br>Cyflogaeth |
|---|---|
| **Issue - Whether the target of 32,300 new jobs is supported by robust evidence and whether the plan provides sufficient, suitable and deliverable employment land to meet the needs of Cardiff to 2036.** | **Mater - A yw'r targed o 32,300 o swyddi newydd yn cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn ac a yw'r cynllun yn darparu tir cyflogaeth digonol, addas a chyflawnadwy i ddiwallu anghenion Caerdydd hyd at 2036.** |
| **1. Opening and introductions** | **1. Agor a chyflwyniadau** |
| **2. Employment Land Need and Evidence** | **2. Angen a Thystiolaeth ar gyfer Tir Cyflogaeth** |
| 2.1 How was the figure of 32,300 jobs derived, and what datasets and forecasts underpin it? | 2.1 Sut daethpwyd i'r ffigur o 32,300 o swyddi, a pha setiau data a rhagolygon sy'n sail iddo? |
| 2.2 What methodology has been used to translate economic forecasts into employment need, and how does it align with national policy and guidance? | 2.2 Pa fethodoleg sydd wedi'i defnyddio i drosi rhagolygon economaidd yn angen cyflogaeth, a sut mae'n cyd-fynd â pholisi a chanllawiau cenedlaethol? |
| 2.3 What assumptions have informed the economic forecasts (including growth, sector-specific employment change, home-working and employment densities), and how sensitive is the jobs figure to those assumptions? | 2.3 Pa ragdybiaethau sydd wedi llywio'r rhagolygon economaidd (gan gynnwys twf, newid cyflogaeth sector-benodol, gweithio gartref a dwysedd cyflogaeth), a pha mor sensitif yw'r ffigur swyddi i'r rhagdybiaethau hynny? |
| 2.4 How has the jobs target been translated into employment floorspace and land requirements? | 2.4 Sut mae'r targed swyddi wedi'i drosi'n gofynion cyflogaeth a thir? |
| 2.5 How does the figure of 32,300 jobs and the strategy reflect Cardiff's identification as part of a National Growth Area in Future Wales at the national and wider regional level? | 2.5 Sut mae'r ffigur o 32,300 o swyddi a'r strategaeth yn adlewyrchu Caerdydd fel rhan o Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol ehangach? |
| **3. Employment Land Supply and Deliverability** | **3. Cyflenwad a Chyflawnadwyedd Tir Cyflogaeth** |
| 3.1 With the deletion of EC2 there are no new employment allocations. How many of the | 3.1 Yn sgil dileu EC2, nid oes unrhyw ddyraniadau cyflogaeth newydd. Sawl un |

| | |
|---|---|
| 32,300 jobs were to be provided at St Mellons, and in the absence of new allocations how will the plan now deliver that level of job growth?<br><br>3.2 What is the anticipated delivery timescale for the Land South of St Mellons Business Park, and how does this align with the plan period? If delivery is delayed, is the absence of new employment allocations justified, or is there a need to allocate additional employment land or adjust housing provision to maintain an appropriate balance between jobs and homes?<br><br>3.3 Does the supply provide an appropriate range of site types, sizes and locations to meet qualitative needs, including those of key growth sectors?<br><br>3.4 Does the plan provide sufficient flexibility to respond to change?<br><br>3.5 What evidence demonstrates that existing employment sites have the physical capacity, market attractiveness and viability to deliver additional employment development?<br><br>3.6 To what extent is the primary reliance on existing sites a robust and deliverable strategy, and what risks are associated with this approach?<br><br>**4. Safeguarding and Loss of Employment Land**<br><br>4.1 What assessments have been undertaken to inform the safeguarding of sites under Policy EC3, and what do those assessments demonstrate about the likelihood of continued employment use at these sites in practice?<br><br>4.2 How realistically can the criteria in Policy EC5A be satisfied in practice if sites have been identified as suitable for ongoing employment use?<br><br>4.3 The land-use benefits of mixed-use development, and the potential for new higher value development to cross-subsidise employment development, are understood. Where a site has no realistic | o'r 32,300 o swyddi oedd i'w darparu yn Llaneirwg, ac yn absenoldeb dyraniadau newydd, sut bydd y cynllun bellach yn cyflawni'r lefel honno o dwf swyddi?<br><br>3.2 Beth yw'r amserlen gyflenwi a ragwelir ar gyfer y Tir i'r De o Barc Busnes Llaneirwg, a sut mae hyn yn cyd-fynd â chyfnod y cynllun? Os yw'r cyflawniad yn cael ei ohirio, a yw'r absenoldeb o ddyraniadau cyflogaeth newydd yn gyfiawn, neu a oes angen dyrannu tir cyflogaeth ychwanegol neu addasu'r ddarpariaeth dai i gynnal cydbwysedd priodol rhwng swyddi a chartrefi?<br><br>3.3 A yw'r cyflenwad yn darparu ystod briodol o fathau, meintiau a lleoliadau safle i ddiwallu anghenion ansoddol, gan gynnwys anghenion sectorau twf allweddol?<br><br>3.4 A yw'r cynllun yn darparu digon o hyblygrwydd i ymateb i newid?<br><br>3.5 Pa dystiolaeth sy'n dangos bod gan safleoedd cyflogaeth presennol y gallu ffisegol, atyniad y farchnad a'r hyfywedd i ddarparu datblygiad cyflogaeth ychwanegol?<br><br>3.6 I ba raddau y mae'r prif ddibyniaeth ar safleoedd presennol yn strategaeth gadarn a chyflawnadwy, a pha risgiau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn?<br><br>**4. Diogelu a Cholli Tir Cyflogaeth**<br><br>4.1 Pa asesiadau sydd wedi'u cynnal i lywio diogelu safleoedd dan Bolisi EC3, a beth mae'r asesiadau hynny'n ei ddangos am y tebygolrwydd o barhau gyda defnyddiau cyflogaeth yn y safleoedd hyn yn ymarferol?<br><br>4.2 Pa mor realistig yw bodloni'r meini prawf ym Mholisi EC5A yn ymarferol os yw safleoedd wedi'u nodi fel rhai sy'n addas ar gyfer defnydd cyflogaeth parhaus?<br><br>4.3 Deallir manteision defnydd tir datblygiadau defnydd cymysg, a'r potensial ar gyfer datblygiad gwerth uwch newydd i draws-sybsideiddio datblygiad cyflogaeth. Lle nad oes gan safle unrhyw obaith realistig o ddefnydd cyflogaeth parhaus, a oes |

| | |
|---|---|
| prospect of continued employment use, is there an inherent tension in requiring new employment workspace within mixed-use redevelopment under Policy EC5B at that site? | tensiwn cynhenid yn gofyn am weithle cyflogaeth newydd o fewn ailddatblygiad defnydd cymysg dan Bolisi EC5B ar y safle hwnnw? |
| 4.4 What evidence, including in relation to viability, demonstrates that the delivery of mixed-use schemes incorporating new employment workspace is realistic and deliverable? | 4.4 Pa dystiolaeth, gan gynnwys mewn perthynas â hyfywedd, sy'n dangos bod cyflwyno cynlluniau defnydd cymysg sy'n ymgorffori gweithle cyflogaeth newydd yn realistig ac yn gyflawnadwy? |
| 4.5 Taken as a whole, are Policies EC3, EC5A, EC5B and EC6 sufficiently robust and coherent to safeguard protected employment land effectively in the face of pressure for alternative uses? | 4.5 Yn ei gyfanrwydd, a yw Polisïau EC3, EC5A, EC5B ac EC6 yn ddigon cadarn a chydlynol i ddiogelu tir cyflogaeth gwarchodedig yn effeithiol yn wyneb pwysau am ddefnyddiau amgen? |
| 4.6 The importance of protecting office uses in the Central and Bay Business Areas is understood. Does Policy EC6 contain an internal inconsistency between demonstrating no ongoing need for an office site for office use, and requiring alternative proposals to retain office or commercial floorspace, and if so how should that be resolved? | 4.6 Deallir pwysigrwydd diogelu defnyddiau swyddfa yn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae. A yw Polisi EC6 yn cynnwys anghysondeb mewnol rhwng dangos nad oes angen parhaus am safle swyddfa at ddefnydd swyddfa, a gofyn am gynigion amgen i gadw gofod llawr swyddfa neu fasnachol, ac os felly sut y dylid datrys hynny? |
| **5. Specific Sites** | **5. Safleoedd Penodol** |
| 5.1 In a working port environment, how sustainable and appropriate are the mixed-use proposals envisaged by Policy SP9? | 5.1 Mewn amgylchedd porthladd gweithiol, pa mor gynaliadwy a phriodol yw'r cynigion defnydd cymysg a ragwelir gan Bolisi SP9? |
| 5.2 Considering representations from NRW, is site EC3.4 an appropriate location for further employment development, having regard to environmental constraints and mitigation? | 5.2 O ystyried sylwadau CNC, a yw safle EC3.4 yn lleoliad priodol ar gyfer datblygiadau cyflogaeth pellach, o ystyried y cyfyngiadau a’r camau lliniaru amgylcheddol? |
| **6. Action Points** | **6. Camau Gweithredu** |